

Adroddiad i'r:	Y Cyngor Llawn
Dyddiad y Cyfarfod:	10 Medi 2013
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol
Awdur yr Adroddiad:	Uwch Beiriannydd, Rheoli Risg Llifogydd
Teitl:	Archwiliad i Llifogydd Tachwedd 2012 yng Nglasdir, Rhuthun

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ar y 9 Gorffennaf 2013 cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Llawn ynglŷn â'r archwiliad i ddigwyddiadau llifogydd ledled Sir Ddinbych ym mis Tachwedd 2012. Oherwydd cymhlethdod y llifogydd yn stad Glasdir yn Rhuthun, roedd angen mwy o amser na'r disgwyl i gynnal yr archwiliad i'r digwyddiad penodol hwnnw, ond mae wedi'i gwblhau yn awr.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I gyflwyno canfyddiadau'r archwiliad annibynnol am lifogydd stad Glasdir, Rhuthun i'r Aelodau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

- Nodi canfyddiadau'r archwiliad annibynnol.
- Derbynnu yr argymhellion a nodir yn adroddiad yr archwiliad.
- Cyfarwyddo swyddogion y Cyngor i barhau i weithredu'r argymhellion a osodwyd yn adroddiad yr archwiliad.

4. Manylion am yr Adroddiad.

4.1

Roedd llifogydd sylweddol mewn nifer o leoliadau yn Sir Ddinbych ar 26 a 27 Tachwedd 2012. Yn stad Glasdir, yn Rhuthun, roedd mwy nag 120 o adeiladau wedi'u heffeithio gan y llifogydd. Ym mis Chwefror 2013 penododd y Cyngor ddau arbenigwr, Dr Jean Venables a Clive Onions, i gynnal archwiliad annibynnol llawn. Rhoddwyd Cylch Gorchwyl i'r arbenigwyr oedd yn nodi'r hyn y dymuna'r Cyngor ei ddeall:

- Pam y digwyddodd y llifogydd
- Beth yw'r debygolïaeth y bydd yn digwydd eto.
- Beth y gallai / y dylai'r holl awdurdodau rheoli risg llifogydd perthnasol ei wneud er mwyn lleihau risg llifogydd i adeiladau yn y dyfodol.

Yn bwysicach na hyn, nid pennu bai ar unrhyw un oedd pwrpas yr archwiliad ond archwilio achos (ion) y llifogydd er mwyn penderfynu pa weithredoedd y dylid eu cyflawni.

4.2

Roedd gwybodaeth drylwyr a manwl o hydroleg ardal Afon Clwyd yn hanfodol er mwyn deall digwyddiad Tachwedd 2012 ac mae wedi galluogi'r arbenigwyr annibynnol i ddatblygu model cyfrifiadurol hydrologig manwl. Mae'r model wedi'i ddefnyddio er mwyn datblygu ac arbrofi amrywiaeth o ddewisiadau posibl er mwyn lleihau risg llifogydd yng Nglasdir.

4.3

Canfyddiadau'r Archwiliad Annibynnol:

Pam y digwyddodd y llifogydd

Roedd llif dŵr uchel yn yr Afon Clwyd yn Rhuthun yn dilyn yr holl law trwm am gyfnod hir ar dir a oedd eisoes yn wlyb. Lliffodd yr afon dros ei glannau ychydig i lawr yr afon o'r A494 Pont Ffordd y Parc a llifo tuag at y geuffos 5 ffordd o dan Ffordd Cyswllt Gogleddol Rhuthun. Achosodd rhai rhwystrau yn y ceuffosydd oherwydd llystyfiant a malurion a gludwyd i lefelau'r dŵr godi tu cefn i arglawdd y ffordd gyswllt. Yn y diwedd aeth y dŵr dros ben y bwnd a llifo i stad Glasdir.

Beth yw'r debygolïaeth y bydd yn digwydd eto

Mae'r model hydrologig a wnaed gan yr arbenigwyr annibynnol yn dangos fod tebygolrwydd o 1 mewn 100(1%) ac 1 mewn 200(0.5%) y byddai digwyddiad Tachwedd 2012 yn digwydd mewn unrhyw flwyddyn, gan dueddu tuag at 1 mewn 100.

Beth y gallai / y dylai'r holl awdurdodau rheoli risg llifogydd perthnasol ei wneud er mwyn lleihau risg llifogydd i adeiladau yn y dyfodol.

Mae'r arbenigwyr annibynnol wedi archwilio nifer o ddatrysiadau peiriannol i leihau risg llifogydd yng Nglasdir. Rhoddwyd ystyriaeth bwysig i ymarferoldeb a chostau pob dewis. Wrth wneud eu hargymhellion, mae'r arbenigwyr annibynnol wedi casglu mai safon addas yr amddiffynfeydd ar gyfer datblygiad Glasdir yw 1 mewn 100 mlynedd ac ystyriaeth ychwanegol ar gyfer newid hinsawdd, gyda 95% rhwystrau ceuffosydd a 600mm bwrdd rhydd. Mae'r argymhellion wedi'u crynhoi isod.

Prif Argymhellion yr Arbenigwyr Annibynnol:

- Dylid cynyddu'r bwnd amddiffyn rhag llifogydd cyfredol er mwyn darparu'r safon addas a gyfeirir ato uchod. Golyga hyn y bydd uchder y bwnd yn cael ei gynyddu ychydig dros 1 metr gyferbyn â'r ffordd gyswllt, gyda'r cynnydd mewn uchder yn lleihau tuag at ochr ddeheuol y bwnd.
- Dylid cyflwyno cynllun archwilio a chynnal a chadw ar gyfer y bwnd.
- Fel mesur dros dro (nes y bydd y bwnd wedi'i godi'n barhaol), dylid ystyried defnyddio llinell o fagiau tywod dros dro er mwyn cynyddu uchder y bwnd.
- Dylid trefnu rheolaeth tymor hir y gorlifdir a'r ardal cyfagos, gan ganolbwyntio ar

geuffosydd a'r ardaloedd cyfagos i fyny'r afon ac i lawr yr afon, er mwyn lleihau risg rhwystrau.

- Dylid trefnu rhwydwaith o wardeiniaid llifogydd, gyda swyddog penodol o'r Cyngor i ymateb i'r wardeniaid.
- Dylid cysylltu'r system rhybuddio llifogydd i fedrydd lefel dŵr yr afon i fyny'r afon.
- Ni ddylid rhoi gridyll y ceuffosydd a dynnwyd yn dilyn digwyddiad Tachwedd 2012 yn eu holau.
- Dylid archwilio gosod llinell o byst o gwmpas mynedfeydd y ceuffosydd, er mwyn dal y malurion a'r llystyfiant mawr sy'n cael eu cludo gan ddŵr y llifogydd.

4.4

Gweithredu'r Argymhellion

Er bod yr argymhellion uchod yn cynnwys rhai mesurau dros dro i leihau'r risg, mae'n amlwg bod angen cynnal gwaith parhaol er mwyn darparu'r lefel briodol o amddiffynfeydd. Byddai'r gwaith yn amodol ar gymeradwyaeth statudol a byddai angen Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. O safbwynt Cynllunio, byddai'r gwaith yn cael ei bennu fel Datblygu Cyffredinol a Ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref. Yn amodol ar argaeledd cyllid a'r gymeradwyaeth statudol hanfodol, gellir cynnal y gwaith erbyn diwedd mis Chwefror 2014.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae llifogydd yn gallu achosi ymyrraeth ddifrifol a pharhaus ar y cymunedau y mae'n effeithio arnynt. Mae deall a rheoli risg llifogydd lleol yn cefnogi blaenoriaeth y Cyngor i ddatblygu'r economi leol.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Disgwylir y bydd cost o weithredu'r argymhelliad i gynyddu uchder y bwnd cyfredol tua £250,000. Mae'r Cyngor yn trafod cyfraniad cyllid gan Taylor Wimpey, sy'n berchnogion y tir lle y mae'r bwnd cyfredol a lle y bydd y bwnd arfaethedig yn cael ei adeiladu a Llywodraeth Cymru.

Os yw'r gwaith a argymhellir yn cael ei gyflawni, bydd lefel yr amddiffynfeydd ar gyfer stad Glasdir ar lefel dderbyniol, hynny yw, bydd y stad wedi'i hamddiffyn rhag digwyddiad llifogydd 1 mewn 100, gydag ystyriaethau ychwanegol ar gyfer newid hinsawdd a 95% o rwystr i'r geuffos 5 ffordd o dan Ffordd Gyswllt Rhuthun.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Cynhyrchwyd Briff Budd-ddeiliaid i'w rhannu gydag unrhyw un sydd â diddordeb. Mae cyfarfodydd cyswllt wedi'u cynnal gyda chynrychiolwyr trigolion Glasdir.

9. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor, fel y Prif Awdurdod Llifogydd Lleol, i ymchwilio digwyddiadau o lifogydd.

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud unrhyw beth y credant sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.